GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Cynorthwyydd Glanhau

CYFRIFOL: **Mentor pobl ifanc SGLEIN**
ADRAN: **Mentro Mlaen / Sglein**
LLEOLIAD: **Gwynedd**

Pwrpas y Rôl: I wirfoddoli yn gwmni SGLEIN yn cwblhau tasgau cyffredin glanhau mewn amryw o adeiladau yn cynnwys swyddfeydd, siopau a thai gyda gwirfoddolwyr a phobl ifanc eraill.

Prif ddyletswyddau:

- Dyletswyddau glanhau cyffredin e.e. Hwfro, mopio, hel llwch, polisho, glanhau ffenestri a thacluso'n gyffredinol.
- Mynychu'r gwaith yn daclus a thrwsiadus bob amser.
- Siarad gyda chwsmeriaid yn glen a chyfeillgar a gyda gwen.
- Defnyddio rheolau iechyd a diogelwch mewn gwaith pob dydd e.e. rhoi arwyddion llwr gwlyb pan fo angen.
- Cyfathrebu a gweithio mewn tîm gyda'r mentor glanhau, pobl ifanc a gwirfoddolwyr eraill.

Manteision o wirfoddoli

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

MANYLION PERSON -Gwirfoddolwr

Hanfodol
Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig
Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol
Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm
Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl

Dymunol
Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc
Profiad o glanhau.